
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	09.01.23
Pwnc / Subject:	Mesurau cyson ar gyfer cyflawniad ôl-16 - Trosglwyddiadau rhaglenni

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r adolygiad o'r modd yr ymdrinnir â throsglwyddiadau rhaglenni ar hyn o bryd yn y mesurau cyflawni rhaglenni, ac mae'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig yn gyffredinol. Mae'n arbennig o ddefnyddiol bod y dulliau arfaethedig wedi'u targedu'n ofalus i fynd i'r afael â'r saith mater allweddol yr amlinellir yn glir ac yn fanwl fel rhan o'r cynigion. Mae hyn yn rhoi sail resymegol glir i danategu pob un o'r cynigion penodol, gan gynnwys cynigion amgen lle bo'n briodol. Croesewir hefyd gynnwys data ategol i ddangos cyd-destun a/neu effaith debygol bob un o'r cynigion penodol.

Yn yr un modd ag unrhyw newidiadau i'r modd y caiff mesurau cyflawniad a pherfformiad eu cyfrifo, mae'n bwysig cydnabod y potensial am ganlyniadau anfwriadol. Mae'n arbennig o bwysig gochel rhag y posibilrwydd bod unrhyw dull cyfrifo diwygiedig yn ysgogi ymddygiadau annymunol sy'n amcanu i reoli mesurau perfformiad mewn modd sy'n amlhau dangosyddion yn hytrach na gwir ychwanegu gwerth at ddeilliannau dysgwyr. I ochel rhag hyn, gallai fod yn ddefnyddiol dangos ar gyfer pob mesur nifer y cofnodion yr effeithiwyd arnynt gan bob newid penodol i ddulliau cyfrifo, er enghraifft trwy ddarparu data cyd-destunol sy'n debyg i hwnnw a ddarparwyd yn erbyn bob un o'r newidiadau arfaethedig yn y papur ymgynghori anffurfiol.

Edrychwn ymlaen at dderbyn manylion terfynol y ffordd yr ymdrinnir â throsglwyddiadau, a nodwn na fydd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith hyd nes cylch perfformiad 2022/23 man cynharaf.

I gloi:

- At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r cynigion hyn yn gyffredinol.
- Anogwn fonitro gofalus o unrhyw ystumio a gyflwynir i'r mesurau cyflawniad a achosir gan ddileu dysgwyr a fyddai fel arall yn cael eu cofnodi fel rhai sydd heb gwblhau, rhai sydd heb gyflawni, neu gyflawnwyr â deilliannau graddau gwael
- Lle bynnag y mae modd gwneud hynny, rydym yn annog darparu data cyd-destunol ategol priodol sy'n nodi nifer y cofnodion yr effeithir arnynt gan bob un o'r cynigion

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1. A ydych chi'n cytuno bod y rheol 21 diwrnod ar gyfer trosglwyddiadau i ddarparwr arall fel y pennir yn yr egwyddorion rheoli data ôl-16 yn raddfa amser resymol? Os nad ydych, pam?

Rydym yn cefnogi'r ymagwedd gyffredinol at benderfynu p'un a yw trosglwyddiadau unigol yn ddilys, a chredwn fod y cyfnod 21 diwrnod yn briodol.

Croesawn yn arbennig yr eglurder a roddir gan adran 8 y ddogfen ymgynghori anffurfiol o safbwynt yr amodau pan ddylai dysgwr sy'n trosglwyddo gael ei ddiystyru o fesurau'r darparwr gwreiddiol. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru a'r holl ddarparwyr i sicrhau bod aelodau staff perthnasol sy'n gysylltiedig â rheoli trosglwyddiadau yn gwbl ymwybodol o'r rhain.

C2. A ydych chi'n cytuno y dylem ddileu trosglwyddiad o fesurau'r darparwr gwreiddiol os yw'n bodloni'r meini prawf a amlinellwyd ym mharagraff 8? Os nad ydych, pam? A oes unrhyw awgrymiadau amgen gennych i fynd i'r afael â [Mater 1](#)?

Rydym yn cytuno'n gyffredinol â'r ymagwedd arfaethedig i ddileu trosglwyddiad o fesurau'r darparwr gwreiddiol os yw'n bodloni'r meini prawf a amlinellwyd ym mharagraff 8. Rydym yn cefnogi'r cynnig gan ein bod yn cydnabod y bydd dileu'r cyfryw ddysgwyr o fesurau'r darparwr gwreiddiol yn cymell darparwyr i helpu dysgwyr sy'n tynnu allan i ganfod llwybrau addysg neu hyfforddiant gwahanol yn hytrach nag ymddieithrio o addysg yn gyfan gwbl. Bydd yr amodau a bennir ym mharagraff 8 yn helpu lliniaru yn erbyn trosglwyddiadau amhriodol ac unrhyw gofnod amhriodol o'r rhai sy'n tynnu allan fel trosglwyddiadau. Nodwn y geiriad ym mharagraff 8, 'wedi trosglwyddo i raglen ar lefel briodol'. Hyderwn fod 'lefel briodol' yn cyfeirio at raglen ar yr un lefel neu ar lefel uwch â'r rhaglen wreiddiol.

Fodd bynnag, nid yw'r amodau fel y'u hamlinellwyd yn glir ar hyn o bryd o safbwynt unrhyw gyfyngiadau ar y pwysoliad, neu ddyddiad gorffen arfaethedig y rhaglen newydd ar gyfer dysgwr sy'n trosglwyddo. Mae'n bwysig lliniaru yn erbyn camddefyndd posibl ar y llwybr trosglwyddo hwn, er enghraifft trwy drosglwyddo dysgwr yn hwyr yn ystod ei raglen i raglen newydd ar yr un lefel ond gyda dyddiad gorffen arfaethedig hwyrach neu bwysoliad llai. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd y cynnig i beidio â chymryd unrhyw gamau i ymateb i fater 7 yn helpu rhoi terfynau ar ddyddiadau gorffen dilys. Efallai y dylid rhoi ystyriaeth i bennu cyfnod amser ar gyfer gallu dechrau trosglwyddiad yn ddilys, er enghraifft yn ystod hanner cyntaf cyfnod arfaethedig y rhaglen wreiddiol. Byddai hyn yn gochel rhag bod trosglwyddiadau'n cael eu defnyddio gan ddarparwyr i osgoi cofnodi dysgwyr sy'n tynnu allan neu ddysgwyr sydd heb gwblhau'n llwyddiannus ar ôl i'r dysgwyr ymgymryd â thipyn sylweddol o'i raglen astudio wreiddiol.

C3. A ydych chi'n cytuno y dylai trosglwyddiadau rhwng darparwyr rhwng y blynyddoedd UG ac A2 gael eu cyfrif fel dysgwyr nad ydynt yn parhau ar gyfer y darparwr gwreiddiol a pheidio â'u cyfrif ar gyfer y darparwr terfynol? Os nad ydych, pam? A allwch chi nodi unrhyw broblemau pe bai'r cynnig ar gyfer [Mater 2](#) yn cael ei weithredu? A oes unrhyw awgrymiadau eraill gennych?

Rydym yn cytuno mai'r cynnig fel yr amlinellwyd yw'r cyfaddawd mwyaf addas, ar yr amod bod tabl newydd i ddangos canlyniadau rhaglen A2 lle na chanfuwyd unrhyw UG cyfatebol yn y darparwr hwnnw yn cael ei gynnwys fel y cynigiwyd.

Gallai'r cynnig amgen, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 17, mewn rhai amgylchiadau, greu risg cymell darparwyr i beidio â chefnogi eu dysgwyr os ydynt yn cyflawni canlyniadau UG gwan. O ganlyniad, teimlwn na ddylid gweithredu'r cynnig amgen hwn, er ein bod yn cydnabod, lle mae dysgwyr wir yn symud gartref rhwng y blynyddoedd UG ac A2, y gallai hyn effeithio'n annheg ar fesurau cyflawniad darparwyr. Mae'r data a ddarparwyd sy'n dangos nad yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr dan sylw yn symud gartref o gryn bellter yn cefnogi'r cynnig ymhellach na ddylid mabwysiadu'r opsiwn amgen hwn. Mae'r opsiwn amgen ym mharagraff 18 yn creu risg anghymell darparwyr rhag derbyn unrhyw ddysgwyr sydd â graddau UG cymharol wan sydd yn symud i'w hardaloedd lleol.

C4. A ydych chi'n cytuno y dylai trosglwyddiadau i gymhwyster lefel is y tu allan i'r 8 wythnos gyntaf gael eu cofnodi fel dysgwyr nad ydynt yn cwblhau? Os nad ydych, pam? A allwch chi

nodi unrhyw broblemau pe bai'r cynnig ar gyfer [Mater 3](#) yn cael ei weithredu? A oes unrhyw awgrymiadau eraill gennych?

Rydym yn cefnogi'r cynnig i barhau i gyfrif trosglwyddiadau i gymwysterau lefel is y tu allan i'r 8 wythnos gyntaf fel dysgwyr nad ydynt yn cwblhau. Teimlwn fod y cyfnod wyth wythnos cyfredol ar gyfer tynnu'n ôl yn rhesymol ac mae'n cysoni'n dda ag arferion presennol llawer o ddarparwyr i adolygu addasrwydd a chydweddiad rhaglenni dysgu ar ddiwedd neu cyn diwedd y cyfnod wyth wythnos hwn.

C5. A ydych chi'n cytuno bod y dull presennol o ddewis un rhaglen fesul dysgwr trwy ddewis unrhyw rai sy'n ymestyn y tu hwnt i'r pwynt 8 wythnos tynnu allan yn gynnar, yna'r rhaglen â'r dyddiad dechrau hwyrach, yw'r ffordd gywir o nodi rhaglen "derfynol" y dysgwr? A allwch chi nodi unrhyw broblemau pe bai'r cynnig ar gyfer [Mater 4](#) yn cael ei weithredu? A oes unrhyw awgrymiadau eraill gennych?

Rydym yn cytuno y dylid rhoi'r gorau i ymagwedd hidlo'r dull presennol yng ngoleuni'r mater a nodwyd ym mharagraff 24 y papur ymgynghori anffurfiol. Rydym yn cefnogi'r cynnig a amlinellwyd ym mharagraff 22 fel y dull i ddisodli'r ymagwedd bresennol, o ystyried bod rhaglen a restrwyd fel 'trosglwyddwyd' yn annhebygol o fod yn rhaglen derfynol dysgwr os oes ganddo raglen arall y mae'n parhau â hi neu y mae wedi'i chwblhau ar ôl y dyddiad trosglwyddo.

O ran y dewis rhwng y dull arfaethedig a'r dull amgen, mae'n ymddangos bod y gwahaniaeth yn fach iawn, fodd bynnag, ymddengys ei bod yn synhwyrol ac yn rhesymol i roi blaenoriaeth i ddeilliant y rhaglen dros y dyddiad terfyn gwirioneddol diweddaraf wrth benderfynu ar y drefn flaenoriaethu.

C6. A ydych chi'n cytuno na ddylid defnyddio unrhyw drosglwyddiadau o fewn darparwr yn y cyfrifiadau ar gyfer y mesurau (cyhyd â bod y rhaglen honno ar yr un lefel neu'n uwch)? A allwch chi nodi unrhyw broblemau pe bai'r cynnig ar gyfer [Mater 5](#) yn cael ei weithredu? A oes unrhyw awgrymiadau eraill gennych?

Rydym yn cydnabod y gall trosglwyddiadau rhwng addysg gyffredinol a rhaglenni galwedigaethol fod yn gymhleth ar adegau. Mae trosglwyddiadau rhwng addysg gyffredinol safon UG/safon uwch a rhaglenni cyffredinol cymhwysol fel diplomâu galwedigaethol yn debygol o fod ar yr un lefel. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, gallai fod yn rhesymol i ddysgwyr drosglwyddo o safon UG/safon uwch neu ddiploma lefel uwch i gymhwyster galwedigaethol technegol ar lefel is. Gallai trosglwyddo o ddiploma lefel 3 mewn iechyd a gofal cymdeithasol neu ofal plant i gymhwyster galwedigaethol mewn trin gwallt fod yn enghraifft o hyn.

Serch hynny, er gwaethaf enghreifftiau cymharol brin fel yr amlinellwyd uchod, er budd symlrwydd a chysondeb, mae'n ymddangos yn rhesymol i fwrw ymlaen â'r cynnig o ystyried bod nifer y dysgwyr sy'n gwneud trosglwyddiadau o'r fath yn debygol o fod yn isel (fel y dangosir yn y tabl o dan baragraff 27 y papur). Bydd arolygwyr yn ystyried y cyfryw amgylchiadau eithriadol lle mae'r darparwr yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ategol briodol yn ymwneud â dysgwyr unigol.

Byddem yn awgrymu y dylai'r profiso ar ddiwedd paragraff 27, sy'n datgan y dylai'r rhaglen fod ar yr un lefel neu'n uwch, gael ei ymestyn i bennu pwysoliad/maint y rhaglen er mwyn nodi trosglwyddiadau at raglenni llai ar yr un lefel.

C7. A ydych chi'n cytuno y dylai trosglwyddiadau i raglenni Dysgu yn y Gwaith a rhaglenni Lefel 4 (nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein mesurau) gael eu caniatáu (cyhyd â bod y rhaglen ar yr un lefel neu'n uwch)? Os nad ydych, pam? A oes unrhyw awgrymiadau eraill gennych i fynd i'r afael â [Mater 6](#)?

Rydym yn cefnogi'r cynnig yn ofalus i ganiatáu trosglwyddiadau at raglenni dysgu yn y gwaith a rhaglenni lefel 4 (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y mesurau) cyhyd â bod y rhaglen ar yr un lefel neu'n uwch, gan y bydd hyn yn arwain at gysondeb gwell gyda'r rheolau busnes cyfredol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn datgan yn glir p'un a fyddai trosglwyddiad o raglen amser llawn i raglen prentisiaeth yn cael ei ystyried yn drosglwyddiad dilys.

Rydym yn cefnogi'n gyffredinol y nod o osgoi deilliant negyddol i ddarparwr os yw dysgwr yn trosglwyddo i raglen fwy addas, a allai mewn rhai achosion fod yn rhaglen dysgu yn y gwaith (DYYG). Fodd bynnag, rhaid cymryd gofal er mwyn peidio â chyflwyno rhyw fath o fwch sy'n galluogi darparwyr i osgoi deilliannau aflwyddiannus dilys. Dylid monitro'n ofalus nifer y dysgwyr ar gyrsiau amser llawn sy'n cael eu trosglwyddo i gyrsiau DYYG gyda dyddiadau gorffen disgwylidiedig hwyrach a/neu gyrsiau â phwysoliad is neu raglenni rhan-amser.

Gan fod mesurau deilliannau ar gyfer cyrsiau DYYG yn wahanol, gyda chymaryddion cenedlaethol gwahanol, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i b'un a fydd y cynnig hwn yn cymell darparwyr i gael ymadael â dysgwyr sydd dan risg tynnu allan, methu, neu gyflawni graddau gwael ar ddarpariaeth AB amser llawn drwy eu trosglwyddo i DYYG. Un ffordd o liniaru yn erbyn hyn fyddai adolygu cadernid deilliannau/mesurau cyflawni DYYG, er ein bod yn cydnabod y byddai hyn yn ymgymieriad ychwanegol sylweddol.

Rydym yn cytuno â'r manylion a nodwyd yn glir yn y cynnig ac a nodwyd fel Mater 6 ei bod yn briodol parhau i drin trosglwyddiadau i raglenni eraill (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y mesurau) fel dysgwyr sydd heb gwblhau. Yn unol â materion eraill sy'n effeithio ar ddeilliannau dysgwyr, anogir darparwyr i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol fel rhan o'u tystiolaeth i'w hystyried fel rhan o'r broses arolygu lle maent yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny. Gallai enghraifft o hyn gynnwys lle maent yn teimlo nad yw eu data crai yn dweud y stori lawn ar gyfer dysgwyr unigol neu garfanau dysgwyr penodol.

C8. A ydych chi'n cytuno na ddylid cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â rhaglenni sy'n cael eu trosglwyddo ar draws blynyddoedd academiaidd (fel yr amlinellir ym mharagraff 31)? Os nad ydych, pam?

Rydym yn cytuno ei bod yn briodol parhau â'r ymagwedd bresennol drwy beidio â chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â rhaglenni a drosglwyddir ar draws blynyddoedd academaidd yn cael eu trin fel dysgwyr sydd heb gwblhau. Mae'r rhesymeg ddatganedig, sef y disgwiliad y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni'u cymwysterau yn y cyfnod amser disgwiliedig, yn rhesymol, felly hefyd yr eglurhad y dylai gofynion cofnodi presennol ar gyfer rhaglenni galwedigaethol sy'n ymestyn ar draws dwy flynedd olygu nad oes angen cofnodi trosglwyddiad ar draws blynyddoedd.

Rydym yn cydnabod y gallai fod achosion lle mae dysgwyr yn aros ymlaen ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd y maent i fod i gyflawni ynddi, fel eu bod yn gallu cwblhau gweithgareddau sy'n weddill. Felly, mae'r wybodaeth a'r arweiniad ychwanegol a geir ym mharagraff 32 yn glir a defnyddiol.

Mae'n arbennig o bwysig y ceir gymaint o dryloywder ag y bo modd wrth adrodd am ddata mewn perthynas ag unrhyw ddysgwyr sy'n parhau y tu hwnt i'w dyddiad gorffen disgwiliedig o ystyried effaith parhau felly ar fesurau perfformiad. Er enghraifft, mae'n bwysig osgoi creu sefyllfa lle gallai data o'r fath gael ei drin i chwyddo perfformiad presennol drwy ohirio cofnodi dysgwyr sydd heb gwblhau y tu hwnt i hynny sydd wedi'i gynnwys yn y setiau data.

C9. A oes unrhyw sylwadau neu ymholiadau eraill y dymunwch eu codi?

O ran unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff mesurau cyflawniad a pherfformiad eu cyfrifo, hoffem ailadrodd ei bod yn bwysig cydnabod y potensial ar gyfer canlyniadau anfwriadol. Mae'n arbennig o bwysig gochel rhag y posibilrwydd bod unrhyw ddull cyfrifo diwygiedig yn ysgogi ymddygiadau annymunol sy'n amcanu i reoli mesurau perfformiad mewn modd sy'n amlhau dangosyddion yn hytrach na gwir ychwanegu gwerth at ddeilliannau dysgwyr.

Rydym yn gwerthfawrogi mai swyddogion Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i asesu risgiau unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig. Anogwn fod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i unrhyw ystumio y gellid ei gyflwyno gan ddileu unrhyw ddysgwyr, a fyddai fel arall yn cael eu cynnwys fel rhai sydd heb gwblhau, rhai sydd heb gyflawni, neu gyflawnwyr â deilliannau graddau gwael, o fesurau deilliannau.

I ochel rhag hyn, gallai fod yn ddefnyddiol dangos ar gyfer pob mesur nifer y cofnodion yr effeithiwyd arnynt gan bob newid penodol i ddulliau cyfrifo, er enghraifft trwy ddarparu data cyd-destunol sy'n debyg i hwnnw a ddarparwyd yn erbyn bob un o'r newidiadau arfaethedig yn y papur ymgynghori anffurfiol.

Gobeithiwn y bydd ein sylwadau, ein hadborth a'n hawgrymiadau yn ddefnyddiol i chi, ac edrychwn ymlaen at dderbyn manylion terfynol eich cynigion yn ymwneud â throsglwyddiadau rhaglenni fel rhan o fesurau cyson ar gyfer cyflawniad ôl-16.

Anfonwch y ffurflen ymateb hon ac unrhyw adborth arall i post16quality@gov.wales erbyn dydd Gwener 16 Rhagfyr 2022